

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â helpu i ddatblygu'r gweithgareddau rydych chi'n eu harwain, drwy hyrwyddo mwy o gyfranogiad ac ymdrin ag unrhyw gŵynion neu awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau.

### **Prif ddeilliannau'r safon hon ydyw:**

1. hyrwyddo'r gweithgaredd a chyfleoedd i gymryd rhan
2. ymateb i gŵynion am gynnyrch a gwasanaethau a gynigir
3. ymateb i awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau a gynigir

Mae'r safon hon ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â'r gwaith o arwain gweithgareddau, fel arfer mewn rôl datblygu chwaraeon.

## Meini prawf perfformiad

### Rhaid i chi allu:

#### **Hyrwyddo'r gweithgaredd a chyfleoedd i gymryd rhan\*\***

1. rhoi gwybodaeth am y gweithgaredd i **gyfranogwyr**
2. ymdrin ag ymholiadau am gyfleoedd i gymryd rhan
3. cyfeirio **cyfranogwyr** at y gweithgareddau sydd orau iddynt
4. darparu gwybodaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
5. cyfeirio ymholiadau nad ydych yn gallu ymdrin â nhw at yr unigolyn â chyfrifoldeb yn y sefydliad

\* \*

#### **Ymateb i gŵynion am gynnyrch a gwasanaethau a gynigir**

6. dilyn gofynion cyfreithiol a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad wrth:
  - 6.1 ymateb i gŵynion
  - 6.2 cynnal preifatrwydd a chyfrinachedd
  - 6.3 cyfeirio cwynion at yr unigolyn â chyfrifoldeb yn y sefydliad

\* \*

#### **Ymateb i awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau a gynigir**

7. ymateb i awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau yn unol â gofynion cyfreithiol a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
8. cyfeirio awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau at yr unigolyn â chyfrifoldeb yn y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

### Hyrwyddo'r gweithgaredd a chyfleoedd i gymryd rhan\*\*

1. strwythur a threfniadaeth cenedlaethol y gweithgaredd
2. y gwasanaethau a'r cynnyrch a gaiff eu cynhyrchu gan y gweithgaredd neu sy'n berthnasol iddo
3. **buddion** generig cymryd rhan yn y gweithgaredd
4. sut i ymdrin ag amrywiaeth o **ymholiadau** gan gyfranogwyr
5. yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch er mwyn cyfeirio cyfranogwyr at y gweithgareddau sydd orau iddynt
6. ffynonellau gwybodaeth ychwanegol am y gweithgaredd y gallwch eu defnyddio

\* \*

### Ymateb i gŵynion am gynnyrch a gwasanaethau a gynigir

7. dulliau o ymateb i gŵynion, yn unol â gofynion cyfreithiol a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
8. beth yn union yw cwyn
9. sut i gyfeirio cwynion na allwch ymdrin â nhw eich hun at yr unigolyn â chyfrifoldeb yn y sefydliad
10. sut i gynnal boddhad y cwsmer yn ystod y broses gŵynion

\* \*

### Ymateb i awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau a gynigir

11. sut i annog cyfranogwyr i wneud awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau
12. polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer ymateb i awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau

13. dulliau o ymchwilio i'r awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau a sut i'w gwerthuso
14. y mathau o awgrymiadau am gynnyrch a gwasanaethau sydd angen eu cyfeirio at yr unigolyn â chyfrifoldeb yn y sefydliad

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

### **Cyfranogwyr\* (o leiaf 4)**

1. oedolion
2. plant a phobl ifanc
3. unigolion ag anghenion penodol
4. newydd, di-brofiad
5. y rheini sydd â pheth profiad
6. grwpiau
7. unigolion

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

### **Buddion\*\***

1. ffordd o fyw iach – corfforol a meddyliol
2. dod yn fwy corfforol weithgar
3. datblygiad personol a chymdeithasol

\* \*

### **Ymholiadau**

1. wyneb yn wyneb
2. dros y ffôn
3. negeseuon testun
4. y cyfryngau cymdeithasol

## Gwerthoedd

Mae'r **gwerthoedd** allweddol canlynol yn sail i ddarpariaeth y gwasanaethau o fewn arweinyddiaeth gweithgaredd a bydd yn helpu arweinwyr gweithgaredd i ddylanwadu'n ffridiadol ar y rhai sy'n cymryd rhan.

Dylai Arweinwyr Gweithgareddau wneud y canlynol:

1. meithrin a datblygu amgylchedd sy'n annog pobl i gymryd rhan, yn rheoli risgiau ac yn ysgogi her, mwynhad, hyder a hunan-barch ac yn fwy na dim cyflawniad
2. cefnogi bod angen i'r rhai sy'n cymryd rhan fod yng nghanol y gweithgaredd, trwy gydol eu dyletswyddau fel arweinydd
3. bod yn onest trwy gydol eu gwaith
4. annog ymddygiad cadarnhaol mewn modd teg, cyson, moesegol ac effeithiol
5. croesawu amrywiaeth a chynnwys pawb er mwyn cynnwys pob un sydd ag anghenion penodol a neu allu amrywiol

## Ymddygiadau

Mae'r **ymddygiadau\*\*** allweddol canlynol yn sail i ddarpariaeth y gwasanaethau o fewn arweinyddiaeth gweithgaredd. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yn cael argraff dda o'r sefydliad a'r unigolyn

Dylai Arweinwyr Gweithgareddau wneud y canlynol:

1. arsylwi, parchu a bod yn oddefgar tuag at bawb sy'n cymryd rhan, a phawb sydd ynghlwm, er enghraifft, rhieni, staff ac arweinwyr eraill
2. ymddwyn fel model rôl trwy gynnal y safonau uchaf o ymddygiad personol
3. gweithredu a dangos esiampl trwy ddilyn rheolau sefydlog ar gyfer ymddygiad yn ystod y sesiwn a neu raglen
4. dangos empathi tuag at anghenion a gofynion y rhai sy'n cymryd rhan
5. cadw o fewn y ffiniau ar gyfer cynnal a datblygu perthynas gyda'r

rhai sy'n cymryd rhan

6. parchu swyddogaethau'r staff cefnogi, er enghraifft, gweithwyr gofal, cynorthwyyr cymorth cyntaf, achubwyr bywydau neu gyfeillion a gwybod pryd mae angen cyfeirio unrhyw faterion at yr arbenigwyr hyn

## Sgiliau

Mae'r **sgiliau\*\*** canlynol yn sail i ddarparu y gwasanaethau o fewn arweinyddiaeth gweithgaredd a bydd yn helpu arweinwyr gweithgaredd i ddylanwadu'n fwriadol ar y rhai sy'n cymryd rhan.

Dylai Arweinwyr Gweithgareddau wneud y canlynol:

1. dylanwadu ar y rhai sy'n cymryd rhan i gymryd gofal o a gwerthfawrogi beth ydy gwerth yr offer gaiff ei ddefnyddio
2. bod â dull cyfundrefnol o baratoi, arwain, arolygu a gwerthuso gweithgareddau
3. deall pryd mae angen cynnal cyfrinachedd a phan does dim modd ei sicrhau
4. myfyrio ar eu harferion eu hunain a chwilio am ffyrdd o wella eu gallu bob tro
5. gallu meddwl y tu hwnt i'r syniad gwreiddiol a llunio cynlluniau wrth gefn
6. rheoli disgwyliadau'r rhai sy'n cymryd rhan
7. bod yn hyderus a gwydn
8. addasu gweithgareddau er mwyn datblygu gweithgareddau sy'n llawn hwyl a chyda phwrrpas i'r rhai sy'n cymryd rhan
9. gallu rheoli amser yn effeithiol ac effeithlon
10. adnabod unrhyw beth sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan a sut mae cael gwared ar y rhwystrau hyn
11. meithrin gwaith tîm a chydweithio ymysg cyfoedion
12. dangos diplomyddiaeth wrth herio unrhyw faterion yn ymwneud ag



ymddygiad a gwahaniaethu

13. grymuso a chynnwys y rhai sy'n cymryd rhan yn y sesiwn drwy ddirprwyo tasgau
14. grymuso y rhai sy'n cymryd rhan i fod yn 'ymwybodol o risgiau' trwy eu cynnwys mewn asesiad risg ymarferol ac unrhyw waith penderfynu

## Geirfa

### Unigolion ag anghenion penodol\*\*

Pobl y gall y chwaraeon a /neu'r gweithgaredd fod yn fwy heriol iddynt nag sy'n arferol, er enghraifft, pobl â chyflyrau iechyd, pobl sydd dros eu pwysau, pobl sy'n anarferol o swil neu nerfus, menywod beichiog; cyfranogwyr anabl, a phobl â gofynion amrywiol neu ddiwylliannol

\*  
\*  
\*  
\*

### Amcanion

Yr hyn ddylai'r cyfranogwyr ei gyflawni yn ystod y sesiwn

\*  
\*  
\*  
\*

### Polisïau a gweithdrefnau sefydliadol

Yn ogystal â gofynion cyfreithiol statudol, y rhain yw'r gweithdrefnau gweithio a gytunwyd y mae'n rhaid eu dilyn, er enghraifft, mewn perthynas ag asesiadau risg, ymdrin ag eiddo personol, ymdrin â chwynion, cyfrinachedd, lefelau cyfrifoldeb, diogelu, cod ymarfer ynghylch cymarebau goruchwyliaeth, a'r camau i'w cymryd os na fydd gweithgaredd wedi ei gynnwys yng nghylch gorchwyl Corff Llywodraethu Cenedlaethol

\*  
\*  
\*  
\*

### Datblygiad personol a chymdeithasol

Galluogi pobl i wella eu galluoedd personol mewn meysydd fel hunan-hyder, hunan-barch, hunan-ddibyniaeth, hunan-reolaeth a datrys problemau yn ogystal â'u gallu i weithio ac ymwneud â phobl eraill

\*

\*

\*

\*

### Unigolyn â chyfrifoldeb

Yr unigolyn dynodedig; fel, goruchwyliwr, swyddog dyletswydd, rheolwr llinell, hyfforddwr gweithredol ar ddyletswydd, arweinydd y rhaglen. Mae sawl term y gellir eu defnyddio i ddisgrifio rôl yr unigolyn â chyfrifoldeb a bydd yn amrywio yn ôl eich sefydliad penodol

\*

\*

\*

\*

### Ffynonellau gwybodaeth

Dylai'r rhain fod yn ddibynadwy a dylid eu defnyddio er mwyn galluogi Arweinydd y Gweithgaredd i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r cyfranogwyr. Weithiau, gellir cyfeirio'r cyfranogwyr at y ffynhonnell wybodaeth er mwyn iddynt wneud eu gwaith ymchwil ei hunain. Gallai ffynonellau gwybodaeth dibynadwy gynnwys y rhain, er enghraifft, manylion cyswllt fel rhifau ffôn a gwefan Corff Llywodraethu Cenedlaethol y gamp neu'r gweithgaredd perthnasol, manylion awdurdod lleol, Partneriaeth Chwaraeon Sirol, gwefan GIG, a manylion Cyrff Proffesiynol eraill

\*

\*

\*

\*

### Pobl ifanc

Yn gyffredinol, cyfranogwyr o dan 18 oed, fodd bynnag, dylech gyfeirio at bolisïau eich sefydliad

## Cefnogi datblygiad gweithgareddau

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	29 Ebr 2017
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2022
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAB11
Galwedigaethau perthnasol	Galwedigaethau Technegol a Phroffesiynol Cysylltiedig, Hamdden, Teithio a thwristiaeth, Chwaraeon a hamdden
Cyfres/Set	Arweinyddiaeth Gweithgaredd
Geiriau Allweddol	cymorth, datblygiad, chwaraeon, gweithgaredd